

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 27 Tachwedd 2018

Preseanol: J. Roberts (Cadeirydd); S. Edwards; (Is-gadeirydd), A. Mummery, A. Jones, G. Parry, G. C. Jones, Mervyn Jones; R. Meirion Jones; E. Parry; H. Huws; D. Jones; Robin Williams, Cynghorydd Sirol; Anwen Le Cras (Clerc dros dro)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	Ymddiheuriadau:		
1.1	Arfon Williams, Hannah Ellis		
2.0	Datganiadau o Ddiddordeb.		
2.1	G. Parry ac A. Jones yn datgan diddordeb mewn unrhyw faterion yn ymwneud a'r Clwb Bowlio		
3.0	Adroddiad gan y Cadeirydd a'r Clerc ar y Sefyllfa Bresennol		
3.1	Adroddodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Cynghorydd A. Mummery wedi eu galw i gyfarfod â Mr Deryck Evans, Rheolwr o Swyddfa Awdit Cymru. Nodwyd y rheswm am y cyfarfod oedd oherwydd nad oedd awdit wedi'i gwblhau ar gyfrifon y Cyngor am y blynyddoedd 2016/17 a 2017/18.	Y Cadeirydd i ysgrifennu adroddiad llawn ar y cyfarfod	18/12/18
3.2	Adroddodd y Clerc ar rai o'r materion sydd wedi dod i'r fai ers iddi gychwyn yn y swydd: <ul style="list-style-type: none"> • Biliau trydan yr ystafell snwcer heb eu talu ers dros 8 mis, yn rhannol oherwydd dadl dros yr elfen TAW o'r bil. Torrwyd y trydan i ffwrdd gan Scottish Power. Talwyd y bil gyda siec ond nid oedd digon yn y cyfrif banc i'w dalu. Siec arall wedi'i ysgrifennu allan o gyfrif y Cyngor Bro. Y mater TAW bellach wedi'i ddatrys ac wedi'i osod ar 5%. Y Clerc hefyd wedi adnewyddu'r ddau gytundeb trydan ar delerau mwy ffafriol. • Llythyr wedi'i dderbyn gan gwmni casglu dyledion, Rossendales, i'r perwyl fod y Neuadd Goffa yn ddyledus am y swm o £652.42 i'r Cyngor Sir am Dreth Cyngor y Neuadd. Nodwyd nad oedd y cyn Glerc wedi cwblhau'r ffurflen i dderbyn Rhyddhad o Dreth am y flwyddyn 2018/19 a heb dalu'r bil o ychydig dros £200. Roedd y mater wedi bod o flaen y llys ac wedi derbyn CCJ a'i basio 'mlaen i gwmni Rossendales. Y Clerc wedi ysgrifennu siec am y swm llawn i'w lofnodi heno a'i anfon ar frys i'r cwmni. 		
3.3	Materion sydd yn parhau ac angen eu cwblhau yn yr wythnosau nesaf, yn bennaf: <ul style="list-style-type: none"> • Cwblhau gofynion payroll i HMRC am y blynyddoedd 2015/16, 2016/17 a 2017/18. • Sicrhau fod cyfrifon 2018/19 yn gywir. • Nodi taliadau yn erbyn y gyllideb. • Cofnodi claddedigaethau yn y gofrestr, rhain yn mynd yn ôl dros flwyddyn. 	ALC I weithredu ar yr holl faterion nes eu bod wedi'u cwblhau.	Adrodd yn ôl yn fisol ar y cynnydd.

3.4	Trafodwyd y materion a sut a gyrhaeddwyd y sefyllfa bresennol. <ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd i adolygu'r asesiad risg. • Cytunwyd i ddiffinio trefniadau gwaith y clerc. • Cytunwyd i osod trefn mewn lle i adolygu gwaith y Clerc er mwyn sicrhau nad yw sefyllfa debyg yn codi eto. • Cytunwyd i oedi hysbysebu swydd y Clerc am gyfnod nes bod ALC wedi cael cyfle i ddatrys y problemau a bod y mesuriadau newydd yn eu lle. 	Pwyllgor Cyllid	Ionawr 2019
3.5	Gofynnodd H. Huws sut roedd y Cyngor Bro am dalu'r Clerc am y Gwaith a wnaethpwyd ar gyfrifon 2016/17 a 2017/18 (42 awr) ac am weddill y gwaith sydd heb ei gyflawni gan y cyn glerc. MJ yn cynnig ac SE yn eilio i'r Clerc gadw cofnod o'r oriau Gwaith ac fe wnaed cydnabyddiaeth iddi wedi i'r materion gael eu datrys. Cytunwyd i hyn.		
4.0	Cyfrifon Mis Tachwedd 2018 Cyflwynwyd rhestr taliadau am y mis. Nododd y Clerc ei bod angen adolygu'r cyfrifon i ddarganfod y balans cywir.	Y Clerc i adolygu'r cyfrifon	18/12/18
4.1	Gofynnodd AJ pam mai'r Cyngor Bro oedd yn derbyn rhent y clwb snwcer ond y Neuadd Goffa sy'n talu'r bil trydan/dwr.	Pwyllgor Cyllid i adolygu sefyllfa'r Clwb Snwcer.	Ionawr 2019
4.2	Nodwyd fod casgliad Sul y Coffa bron yn ddwbl yr hyn a gasglwyd llynedd.		
4.3	S.E yn cynnig, AJ yn eilio, cytunwyd i'r taliadau.		
5.0	Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol		
5.1	Nodwyd fod cwynion wedi'u derbyn am fwriad y Cyngor Sir i dynnu'r gwasanaeth bws 43 a 47 trwy Lanfairpwll a Phorthaethwy. Deiseb yn cael ei drefnu.	A.M. i gyflwyno'r ddeiseb i'r Cyngor Sir.	
5.2	Hysbysebodd RMJ fod cyfarfod ymgysylltiad Addysg ôl 16 ar y 5ed o Ragfyr yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy.		
5.3	H.H. yn nodi bod 2 ddiwrnod ar ôl i gofrestru gwrthwynebiad i'r peilonau.		
6.0	Cyflwyno a chadarnhau cofnodion mis Hydref 2018		
6.1	MJ yn cynnig AM yn eilio. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
7.0	Materion yn codi o'r cofnodion		
7.1	Tŵr Marcwis - dim ymateb pellach.		
7.2	Cytundeb Benthyciad y Clwb Bowlio.	Y Clerc i edrych amdano.	
7.3	Ffrindiau Parc y Gors am ddiddymu a throsglwyddo'r arian a'r adnoddau chwarae yn y storfa i'r Cyngor Bro.	S.E. mewn cysylltiad.	
7.4	Ffens cae pêl-droed y Gors. Angen paentio'r rheiliau cyn gosod y ffens.		

7.5	Tŵr Nelson - y gwaith ynghlwm a chynlluniau'r tŷ.		
7.6	Lwfans Gynghorwyr.	Y Clerc i weithredu	18/12/18
7.7	Llinellau melyn Ffordd Penmynydd.	Y Clerc I ysgrifennu at y Cyngor Sir.	18/12/18
7.8	Rheoliadau Ariannol / Asesiad Risg	I'w rhoi ar Agenda Rhagfyr	18/12/18
7.9	Datganiad Trydydd Bont. Lythyr i Carwyn Jones.	Y Clerc i weithredu	18/12/18
7.10	Coeden wedi disgyn tu cefn i'r feddygfa.	AM i gysylltu â rheolwr y safle.	18/12/18
7.11	Goleuadau Nadolig -diolchodd S.E. i bawb am eu cefnogaeth yn arbennig G.C. Jones a G. Parry.		
7.12	Maes Aml Bwrpas - S. E. yn gweithredu.		
8.0	Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae		
8.1	Yn dilyn cywiriadau i bwy oedd yn bresennol. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
9.0	Materion yn codi o'r cofnodion		
9.1	Gwresogyddion y pafiliwn. AM yn adrodd fod Alwyn Roberts efo trydanwr sy'n gweithio iddo a'u bod angen gorïad i'r ystafell boiler.	A.M. i drefnu mynediad.	
9.2	Goleuadau Maes Aml Bwrpas.	Y Clerc i gysylltu â Now Parry.	
10.0	Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa		
10.1	Cynigwyd gan A.J., eiliwyd gan A.M. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
11.0	Materion yn codi o'r cofnodion		
11.1	Grant am £666 ar ei ffordd gan Co-op.		
11.2	Angen sicrhau fod adroddiad blynyddol yn mynd i'r Comisiynydd Elusennau	Y Clerc i weithredu	Ebrill 2019
12.0	Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo		
12.1	Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
13.0	Materion yn codi o'r cofnodion		
13.1	Goleuadau Nadolig - nodwyd bydd cost y trydan yn ddaliadwy i'r Cyngor Sir wedi i'r goleuadau ddod lawr.		
14.0	Ceisiadau Cynllunio		

14.1	Cais newid defnydd y toiledau i swyddfa. Dim sylw. S.E. wedi clywed fod y perchennog newydd eisiau cael symud y storfa er mwyn gosod sgaffald. Disgwyl am gais swyddogol.		
15.0	Gohebiaeth		
15.1	Sedd Wag - derbyniwyd llythyr gan Ifor Griffith yn datgan diddordeb ymuno a'r Cyngor Bro. Cytunwyd i'w wahodd i fod yn aelod.	Y Clerc i yrru llythyr.	18/12/18
15.2	Ymgynghoriad Gwasanaeth Bws 43 a 47 - Cytunwyd I ofyn i CSYM gadw gwasanaeth 43 gan fod nifer o drigolion yn ddibynnol arno i fynychu'r feddygfa a'r Co-op.	Y Clerc i yrru llythyr	14/12/18
15.3	Llythyr o ddiolch gan CAB am y rhodd garedig.		
15.4	CSYM, Penderfyniadau Cynllunio: • 16 Lôn y Wennol - Caniatáu • Deintyddfa Marcwis - Caniatáu		
16.0	Materion Brys		
16.1	Cais Cynllunio Plas Britannia - CSYM yn disgwyl gwybodaeth bellach gan yr ymgeisydd.		
16.2	Cylch Meithrin Llanfairpwll - gwahoddiad i gynrychiolydd o'r Cyngor Bro fynychu cyfarfodydd y pwyllgor.	D.J. i fynychu'r cyfarfod	06/12/18
16.3	Elfyn a Rosina Jones eisiau gosod mainc er cof am Meredydd yn y fynwent. Cytunwyd. H.H. yn gofyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg ar y fainc. Hefyd awgrymu prynu mainc sy'n hawdd i'w chynnal.	G.P. I gysylltu	
16.4	Adroddodd G.C. Jones am ddamwain ar y ffordd ger ysgubor Hendy ar y ffordd i Four Crosses. Cyflymder y lôn yn 50mya. Nodwyd hefyd gan H.H. fod damwain arall wedi digwydd ger y troad o'r A5 I Bont Britannia. R.W. yn adrodd fod CSYM wedi cynnal asesiad risg ar y lôn a'i fod yn saff i blant gerdded i'r ysgol ym Mhorthaethwy.	Y Clerc i lythyru CSYM a'r Heddlu i ofyn iddynt edrych eto ar y cyflymder uchaf.	18/12/18

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 18 Rhagfyr 2018 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd..... (Cadeirydd) Dyddiad